## Cofnodion Cyfarfod CCG Mis Gorffennaf a ohiriwyd tan Awst 6.8.20

**Am 8.00yh Ar-lein**

**19:126: Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), Deryck Lewis, Gareth Jones, Aled Griffiths, Gwen Lloyd, Dafydd Evans, William Owen, Gwenfair Davies, Gareth Owen, Dafydd Evans, Gareth Owen

**19:127: Ymddiheuriadau:** Huw Williams, Aeron Pughe, Elwyn Vaughan, Iwan Jones, Paul Hughes, Geraint Wigley,

Estynnwyd cydymdeimlad dwys at deulu Tynrhos yn eu profedigaeth ddiweddar o golli Iwan.

**19:128: Datganiadau o ddiddordeb** - Dim

**19:129: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Chwefror**

**19.129:1** Nodwyd y dylid newid enw Capel Samah i Gapel Same a nodi mai yng Nghwmlline mae'r capel hwnnw yn y dyfodol, er cysondeb.

Cynigiodd Dafydd Evans fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Gareth Jones.

**19:130: Materion yn codi o'r Cofnodion**

**19:130:1: Bocs ffôn Cemaes.** Y Cyngor piau'r bocs erbyn hyn. Gan fod diffibrilator eisoes yn y pentref, penderfynwyd cysylltu â Ms. Isobel Bottoms o Siop Cemaes a gofyn iddi hi a fyddai'n fodlon canfod syniadau'r bobl leol am sut y gellir defnyddio'r bocs orau er lles y cyhoedd.

Bydd eisiau cysylltu â CAME o ran cynnwys y bocs ar y polisi yswiriant.

Ffordd Abercegir. Cafwyd adroddiad gan gynrychiolydd Cyngor Sir Powys a chynghorwr lleol bod y sefyllfa wedi gwella o ran y tractor ac eitemau eraill ar y ffordd gefn

**19:131: Derbyn cyfrifon ac argymhellion Cyfrifon 2019-2020**

Mae'r anghysondebau a nodwyd yn yr awdit mewnol wedi eu cysoni erbyn hyn. (3 siec heb eu cyflwyno (NALCC, HMRC, BT), a thri thalid i'r banc (ffioedd claddu a newidiadau i garreg fedd).

**19:132: Cynllunio:** Dim

**19:133: Materion Ariannol: Taliadau**

**19:133:1: Yswiriant 2020-2021 CAME**– £495.58 Cynigwyd talu gan Gareth Owen ac fe'i eiliwyd gan Gwenfair Davies

**19:133:2:** Whittingham Riddell £660.00 Cynigiwyd talu'r swm am gyflwyno'r awdit mewnol gan Garth Owen ac fe'i eiliwyd gan Aled Griffiths. Nodwyd and oedd gwasanaethau cynghori a chynorthwyo ar gyfer paratoi'r cyfrifon eleni er bod llythyr ymgysylltu cyfredol. Ystyrir trefniadau ar gyfer 2020-2021 yng nghyfarfod nesaf CCG.

**19:133:3:** Neuadd Glantwymyn £60.00 am logi ystafell ar gyfer CCG Medi 2019 – Mawrth 2020

19:134: **Gohebiaeth:**

**19:134:1: Mount Pleasant, Ceinws**

Cafwyd gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ffordd ymlaen o ran y tir hwn. Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o sensitifrwydd pobl leol i'r mater, ond penderfynwyd mai mater cenedlaethol yw hwn mewn gwirionedd ac y dylid cysylltu â Llywodraeth Cymru a gofyn iddynt alw cyfarfod gan nodi y byddai'r cynghorwyr yn fodlon iawn i fynychu'r cyfarfod a chydweithredu'n llwyr. Cynigiwyd derbyn hwn gan Aled Griffiths ac fe'i eiliwyd gan Dafydd Evans.

**19:135: Materion eraill:**

**19:135:1:** Estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor at deulu Nant-y-gaseg o golli Mrs. Elinor Thomas.

Penderfynwyd gohirio trafod y bocsys ffôn tan y cyfarfod nesaf oherwydd cyfyngiadau amser

**19:135:2:** Nodwyd bod y parc chwarae newydd wedi cael ei sefydlu yng Nghwmlline, ac yn edrych yn dda iawn. Cydnabu cyfraniad diwyd Kelly Richards a Mark Graham

**19:135:3:** Dymunir gwellhad buan i Morus Griffiths

**19:135:4:** Penderfynwyd gohirio trafod y bocsys ffôn Talywern, Llanwrin tan y cyfarfod nesaf oherwydd cyfyngiadau amser

Caewyd y cyfarfod am 9.30yh.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 ar y 24ain o Fedi**

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes**

Cafwyd cais gan Gôr Dyffryn Dyfi am gyfraniad ariannol yn niffyg gallu perfformio adeg Cyfnod y Clo. Cynigiwyd y dylid cyfrannu £300.00 gan Gwenfair Davies. Fe'i eiliwyd gan Aled Griffiths.

Caewyd y cyfarfod am 9.40yh